

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Amaethyddiaeth - Datblygu Cynaliadwy ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

11 March 2025

Disgrifiad

1. Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 ("Gorchymyn 2025") yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth. Mae Gorchymyn 2025 yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 ("Gorchymyn 2024") gyda newidiadau sy'n cynnwys cynyddu'r cyfraddau tâl isaf fesul awr.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Mae'r diwygiadau technegol a drafftio canlynol wedi'u gwneud mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd yn ei adroddiad ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024¹:
 - a) Mae diffiniad Erthygl 2 o "Fframwaith Prentisiaethau" yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu sut y caiff fframweithiau prentisiaethau eu cyflenwi a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Lantra.
 - b) Mae diffiniadau Erthygl 2 o "grant geni a mabwysiadu", "gwaith nos" ac "ar alwad" yn cael eu symud i Erthygl 15(2) newydd.
 - c) Mae diffiniad Erthygl 2 o "blentyn" yn cael ei ddiweddarau i roi "Plentyn yw plentyn" yn lle "Bydd plentyn yn blentyn".
 - d) Mae diffiniad Erthygl 2 o "gyflogaeth" - "ac mae "a gyflogir" (" employed") a "cyflogwr" ("employer") i'w dehongli yn unol â hynny" i'w ddileu.
 - e) Diffiniad Erthygl 2 o "ddiwrnodau cymwys" - diffinnir y term a rhoddir ystyr gwahanol iddo yn erthygl 22(4). Felly, mae'r diffiniad yn Erthygl 2 yn cael ei ddiweddarau i gynnwys "ac eithrio yn erthygl 21" i egluro ble mae'r diffiniad yn cael ei gymhwyso yn y Gorchymyn.
 - f) Mae diffiniad Erthygl 2 o "isafswm cyflog cenedlaethol" yn cael ei ddileu gan nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Gorchymyn, ac eithrio yn nheitl Deddf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998.
 - g) Mae diffiniad Erthygl 2 o "amser gweithio" yn cael ei ddileu gan nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Gorchymyn, ac eithrio yn nheitl Rheoliadau Amser Gwaith 1998.
 - h) Ychwanegir diffiniad Erthygl 2 o "waith."
 - i) Yn Erthygl 20(1) ar gyfyngu ar hawl i dâl salwch amaethyddol - caiff "ni fydd" ei ddisodli gan "nid yw".
 - j) Mae Erthygl 22(4) ar gyfrifo tâl salwch amaethyddol yn cael ei ddileu gan nad oes amgylchiadau lle byddai'n berthnasol.
 - k) Yn Erthygl 25(1) ar adennill tâl salwch amaethyddol – caiff "gall" ei ddisodli gan "caiff"

¹ [LJC6-15-24 - Papur 2 - Adroddiad.pdf](#)

- l) Mae Erthygl 40(2) ar Absenoldeb oherwydd Profedigaeth yn cael ei ailfformatio. Yn hytrach na rhestru "plentyn" fel eitem ar wahân, mae'r fersiwn ddiwygiedig yn nodi'n uniongyrchol bod y personau yng Nghategori A yn blentyn, gan wneud y testun yn gliriach ac yn symlach.
- m) Yn Erthygl 41(5) ar bennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth – caiff "pan fo'r erthygl hon yn gymwys" ei ddileu.
- n) Yn Erthygl 42 (1) ar dâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol – caiff "bydd" ei ddisodli gan "mae"
- o) Yn Erthygl 42(2) ar dâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol – caiff "yn unol ag erthygl 43(1)" ei ddiwygio i "yn unol â pharagraff (1)".

Y cefndir deddfwriaethol

- 3. Mae'r Panel yn gorff cyngori annibynnol a sefydlwyd o dan adran 2(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") gan Orchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 ("Gorchymyn y Panel") ar 1 Ebrill 2016.
- 4. Mae adran 2 o'r Ddeddf ac erthygl 3(2) o Orchymyn y Panel yn pennu swyddogaethau'r Panel. Un o swyddogaethau allweddol y Panel yw paratoi gorchymynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori arnynt a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.
- 5. Gwneir Gorchymyn 2025 yn unol ag adrannau 3, 4(1) ac 17 o Ddeddf 2014 ac yn unol ag adran 17(3) o Ddeddf 2014 o dan y weithdrefn negyddol.
- 6. Mae adran 3(1) yn darparu bod gorchymyn cyflogau amaethyddol yn ddarpariaeth sy'n gwneud gorchymyn ynghylch y cyfraddau tâl isaf a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol. Yn benodol, yn unol ag adran 3(2), caiff gorchymyn cyflogau amaethyddol gynnwys darpariaeth sy'n nodi (ymhlith pethau eraill) y cyfraddau tâl isaf i'w talu i weithwyr amaethyddol.
- 7. Mae adran 3(3) yn darparu y caiff gorchymyn cyflogau amaethyddol bennu cyfraddau gwahanol a gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gweithwyr amaethyddol â disgrifiadau gwahanol.
- 8. Yn unol â'u swyddogaethau, adolygodd y Panel ddarpariaethau Gorchymyn 2024, gan gynnig nifer o welliannau. Ymgynghorodd ar y newidiadau hyn rhwng 18 Hydref a 15 Tachwedd 2024 gan baratoi Gorchymyn drafft wedyn i Weinidogion Cymru ei ystyried. Cafodd Gorchymyn 2025 drafft ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ar 16 Rhagfyr 2024.
- 9. Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf 2014, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i:
 - a) gymeradwyo a gwneud y gorchymyn drwy Offeryn Statudol, neu
 - b) cyfeirio'r gorchymyn yn ôl at y Panel i'w ystyried ymhellach a'i ailgyflwyno.

10. Mae adran 17(1) yn rhoi'r pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaeth ddeilliadol, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn sy'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Ddeddf ac i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

11. Diben y Rheoliadau hyn yw diogelu'r amodau a'r lwfansau cyflogaeth sy'n unigryw i'r sector amaethyddol. Mae'n cydnabod natur unigryw cyflogaeth mewn amaethyddiaeth, gan gynnwys ei natur dymhorol, bod llawer o swyddi'n rhai achlysurol a'r defnydd o lety ar y fferm. Bydd darpariaethau yng Ngorchymyn 2025 yn parhau i wobrwyo cymwysterau a/neu brofiad mewn amaethyddiaeth sy'n cynnwys gwahaniaethau cyflog sy'n seiliedig ar lefel y sgil sydd ei angen ar bob gradd. Mae hyn yn rhoi cymhelliant i ddatblygu sgiliau yn y sector ac yn cefnogi bodolaeth gweithlu medrus sydd wedi'i hyfforddi'n dda a all, yn ei dro, gynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd.

12. Mae sicrhau dilyniant mewn cyflog i weithwyr amaethyddol yn gwella eu rhagolygon gwaith ar gyfer y dyfodol ac yn cefnogi cymunedau gwledig drwy effeithiau ar incwm aelwydydd.

13. Mae hefyd yn helpu ffermwyr a gweithwyr fferm i allu nodi telerau ac amodau eu cyflogaeth ac osgoi anghydfodau posibl a'r angen am drafodaethau hir gydag unigolion.

14. Mae'r Panel yn argymhell:

- cynyddu'r cyfraddau tâl isaf fesul awr ar gyfer pob gradd a chategori o weithiwr amaethyddol;
- cynyddu'r holl lwfansau;
- newid y diffiniad o oriau sylfaenol a goramser;
- dileu'r ddarpariaeth ar ddiogelu tâl;
- newid y rheolau am gostau hyfforddi;
- newid y ffordd y pennir hawliau gwyliau, yn enwedig ar gyfer gweithwyr a gyflogir am ran o'r flwyddyn yn unig;
- diweddarau'r darpariaethau ar absenoldebau di-dâl i adlewyrchu cyfraith cyflogaeth ehangach; a
- nifer o ddiwygiadau technegol a drafftio.

Ymgynghori

15. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hyn rhwng 18 Hydref a 15 Tachwedd 2024. E-bostiwyd y cynigion at restr hir o randdeiliaid ac fe'u

cyhoeddwyd ar dudalen we Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Mae copïau caled hefyd ar gael o ofyn amdanynt.

16. Dim ond dau ymateb a gafwyd i'r ddogfen ymgynghori. Roedd un ymateb yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig, tra bo'r llall yn dadlau na ddylai'r cyfraddau isaf fod yn uwch na'r rhai mewn sectorau tebyg heb gyfiawnhad clir. Roedd yr ymatebydd hwn yn cytuno hefyd â'r nod o symleiddio rheolau goramser ond nododd na fydd y geiriad newydd efallai'n cyflawni'r nod hwnnw. Yn ogystal, fe dynnodd sylw at broblemau gyda'r cyfrifiadau tâl gwyliau ar gyfer gweithwyr oriau afreolaidd ac awgrymodd alinio'r lwfans gwrthbwysio llety â deddfwriaeth isafswm cyflog cenedlaethol.
17. Gwnaeth y Panel gydnabod ac ystyried y ddau ymateb. Fodd bynnag, wedi rhoi popeth yn y glorian, penderfynodd gadw at y cynigion gwreiddiol, gan nodi y byddai rhai pwyntiau a godir yn cael eu hystyried mewn trafodaethau yn y dyfodol.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr opsiynau

18. Mae'r Panel Cyngori annibynnol ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel) yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y cyfraddau cyflog isaf a'r lwfansau i weithwyr amaethyddol.
19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:
- Gwneud dim
 - Rhoi argymhellion y Panel ar waith
20. Yr opsiwn a ffeirir yw rhoi argymhellion y Panel ar waith. Hynny er mwyn sicrhau bod y cyflogau amaethyddol isaf yn deg ac yn gytbwys i weithwyr a chyflogwyr.
21. Mae'r Panel wedi penderfynu ar ei argymhellion trwy ystyriaeth a thrafodaeth drylwyr ar y cyd o'r cynigion cychwynnol a gyflwynwyd gan yr undebau ffermio (ar ran y cyflogwyr) a chan Unite the Union (ar ran y gweithwyr).
22. Er mwyn lleihau cymhlethdod, yn [mewnosod blwyddyn] pennodd y Panel y gwahaniaethau rhwng pob gradd. Drwy hynny, bydd y trafodaethau ar gyfraddau cyflog yn gallu canolbwyntio ar y gyfradd sylfaenol yn unig, gan symleiddio'r broses a'i gwneud yn fwy effeithlon. Dyma'r gwahaniaethau y cytunwyd arnynt:
- | | |
|-------------------|-------|
| a. Gradd A1-A3: | 0% |
| b. Gradd B1 a B2: | 0% |
| c. Gradd B3: | 3.1% |
| d. Gradd C: | 6.2% |
| e. Gradd D: | 16.5% |
| f. Gradd E: | 27.9% |
23. Gwnaeth Unite argymhell y Cyflog Byw Gwirioneddol fel y gyfradd sylfaenol, gan bwysleisio'r angen am dâl teg sy'n adlewyrchu costau byw ac yn sicrhau safon byw weddus i weithwyr. Defnyddiwyd data ar incwm ffermydd i gefnogi eu cynnig. Roedd y data'n awgrymu y gallai llawer o ffermydd fforddio talu cyflogau uwch. Roedd y cynnig yn cynnwys hefyd wybodaeth am gostau byw, cyfraddau chwyddiant a'r pwysau ariannol ar weithwyr amaethyddol. Yn ogystal, bu'n trafod y gystadleuaeth am lafur yng Nghymru, gan bwysleisio'r angen i gyflogau amaethyddol fod yn gystadleuol i ddenu a chadw gweithwyr.
24. Roedd yr undebau ffermio ar y llaw arall yn argymhell mai'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ddylai fod yn gyfradd sylfaenol, gan bwysleisio fforddiadwyedd a chynaliadwyedd busnesau. I ategu eu cynnig, defnyddiwyd ystod o wybodaeth gan gynnwys incwm ffermydd i ddangos y gwahaniaethau mawr yn incwm

mathau gwahanol o ffermydd. Gwnaeth y cynnig ystyried hefyd y cyd-destun economaidd, gan gynnwys effaith chwyddiant, cost cydymffurfio â rheoliadau ac effeithiau ariannol TB Gwartheg. Tynnwyd sylw at y ddibyniaeth ar weithwyr teuluol a gweithwyr hunangyflogedig ym marchnad lafur amaethyddol Cymru.

25. Trafododd y Panel y cynigion yn ei gyfarfodydd ar 9 a 10 Medi 2024. Ystyriwyd effeithiau posibl lefelau cyflog gwahanol ar gyflogwyr a gweithwyr, yn ogystal ag ar gynaliadwyedd busnesau ffermio.

26. Cytunodd mwyafrif y Panel ar gyfaddawd a fyddai'n seilio'r graddau is ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, gan ateb pryderon cyflogwyr ynghylch costau. Ar gyfer y graddau uwch, gosodwyd y gyfradd sylfaenol hanner ffordd rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol tybiedig a'r Cyflog Byw Gwirioneddol (ni chaiff y cyfraddau terfynol eu cyhoeddi tan gyllideb yr Hydref), ynghyd â'r gwahaniaethu sydd eisoes wedi'u pennu rhwng graddau. Cytunwyd y dylai lwfansau gynyddu 10%, y ganran y mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi codi yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Drwy hynny, cydnabyddir galw'r gweithwyr am gyflogau teg gan ystyried yr un pryd y realiti economaidd sy'n wynebu cyflogwyr.

27. I weld cofnodion manwl cyfarfodydd y Panel sy'n dangos sut y daeth i'w benderfyniadau, ewch i <https://www.llyw.cymru/node/119/latest-external-org-content>

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

28. Dyma'r opsiwn polisi sylfaen i gadw'r cyfraddau cyflog isaf ac amodau a thelerau eraill gweithwyr amaethyddol ar lefelau 2024 yn unol â darpariaethau Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024.

29. Mae'n bwysig cofio trwy gadw at yr opsiwn llinell sylfaen hwn, bydd yr isafswm cyflog amaethyddol ("AMW") yn parhau. Felly, nid yw costau a buddion dewisiadau polisi amgen o'u cymharu â'r llinell sylfaen hon yn cynnwys y buddion na'r costau sy'n deillio o fodolaeth y trefniadau AMW eu hunain. Yn hytrach, mae'n asesiad o gostau a buddion ychwanegol Gorchymyn 2025 o'u cymharu â senario Gorchymyn 2024 sy'n ystyried hefyd y newidiadau i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) a'r Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW) o fis Ebrill 2025.

Opsiwn 2 – Rhoi argymhellion y Panel ar waith

30. Dyma'r dewis polisi amgen, a fyddai'n golygu cyflwyno Gorchymyn newydd (2025) i gymryd lle Gorchymyn 2024, yn unol ag argymhelliad y Panel.

31. Mae'r newidiadau i'r cyfraddau isaf ar gyfer gwahanol gategorïau o weithwyr wedi'u nodi yn Nhabl 1.
32. Yn gyffredinol, mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn effeithio'n bennaf ar y graddau uwch (B3, C, D ac E). Ni fydd y graddau is a phrentisiaid yn gweld unrhyw newid. Mae'r cynnydd canrannol i'r graddau yr effeithir arnynt yn erbyn y llinell sylfaen yn amrywio o 3% i 10%.

Tabl 1: Crynodeb o'r newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r cyfraddau cyflog isaf yn ôl gradd

Gradd neu gategori o weithiwr	Gorchym yn 2025	Gorchym yn 2024	2025 NMW/ NLW	Codiad i'r cyflog sylfaenol	% o newid
A1 (16-17 oed)	£7.55	£6.56	£7.55	£0.00	0%
A2 (18-20 oed)	£10.00	£8.82	£10.00	£0.00	0%
A3 (21+ oed)	£12.21	£11.73	£12.21	£0.00	0%
B1 (16-17 oed)	£7.55	£6.56	£7.55	£0.00	0%
B2 (18-20 oed)	£10.00	£8.82	£10.00	£0.00	0%
B3 (21+ oed)	£12.59	£11.79	£12.21	£0.38	3%
C	£13.48	£12.27	£12.21	£1.21	10%
D	£14.79	£13.46	£12.21	£1.33	10%
E	£16.23	£14.77	£12.21	£1.46	10%
Cyfraddau prentisiaid:					
Blwyddyn 1	£7.55	£6.40	£7.55	£0.00	0%
Blwyddyn 2 (16-17 oed)	£7.55	£6.40	£7.55	£0.00	0%
Blwyddyn 2 a thu hwnt (18-20 oed)	£10.00	£8.60	£10.00	£0.00	0%
Blwyddyn 2 a thu hwnt (21+ oed)	£12.21	£11.44	£12.21	£0.00	0%

* y llinell sylfaen, sydd *mewn italic*, yw'r uchaf o ran ei werth rhwng cyfradd Gorchymyn 2024 a NLW / NMW 2025.

33. Bydd y cyfraddau ar gyfer y lwfans cŵn, gwaith nos a grant geni / mabwysiadu yn cynyddu 10% (Tabl 2).

Tabl 2: Crynodeb o'r newidiadau sy'n cael eu cynnig i lwfansau

Lwfansau	Cyfraddau cyfredol Gorchymyn 2024	Cyfraddau a gynigir yng Ngorchymyn 2025
Lwfans Cŵn	£10.16	£11.18 (Cyfradd bresennol + 10 %)
Lwfans Gwaith Nos	£1.93 yr awr	£2.12 (Cyfradd bresennol + 10 %)
Grant Geni / Mabwysiadu	£79.86 y plentyn	£87.85 (Cyfradd bresennol + 10 %)

Newidiadau eraill a gynigir

34. Mae'r rheolau goramser wedi'u symleiddio fel a ganlyn:

- mae'r diffiniad o "oriau sylfaenol" wedi'i ddiweddarau i olygu *uchafswm* o 39 awr yr wythnos neu unrhyw oriau cytunedig eraill o dan contract y gweithiwr neu'r brentisiaeth. Nod hyn yw ei gwneud yn glir bod yn rhaid i weithwyr rhan-amser gael tâl goramser am oriau a weithiwyd ar ben oriau sylfaenol eu contract.
- Mae'r diffiniad o oramser yn cael ei newid fel bod "(i) yn fwy nag oriau gwaith sylfaenol" yn disodli "(i) yn ychwanegol at ddiwrnod gwaith 8 awr, (ii) yn ychwanegol at yr oriau gwaith y cytunwyd arnynt yn ei contract". Nod hyn yw symleiddio ac egluro pryd y mae goramser yn daladwy. Bydd hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i estyn hyd y diwrnod gwaith i fwy nag 8 awr pan fydd anghenion busnes y fferm yn gofyn am hynny (heb orfod talu goramser), a chael gwared ar y senario anomolaidd pan fydd goramser yn daladwy cyn i'r holl oriau gwaith sylfaenol mewn wythnos gael eu gweithio.

35. Mae'r darpariaethau diogelu cyflog yn cael eu dileu. Cafodd y ddarpariaeth ei chyflwyno i ddiogelu cyflogau gweithwyr amaethyddol pan newidiwyd y system raddio ym mis Ebrill 2022. Sicrhodd na welodd gweithwyr ostyngiad yn eu cyflog wrth uno â gradd newydd. Nid oes angen yr amddiffyniad hwn mwyach o dan y cyfraddau tâl isaf sy'n cael eu cynnig gan eu bod yn uwch na chyfraddau 2022 ar gyfer graddau tebyg.

36. Mae darpariaethau ynghylch costau hyfforddi yn cael eu diweddarau er mwyn i gyflogwyr allu adennill y costau hyn os bydd gweithiwr yn gadael ei swydd yn ystod yr hyfforddiant neu o fewn 12 mis wedi'i gwblhau. Yr unig gostau y gellir eu hadennill yw'r rheini a dalwyd gan y cyflogwr ac nid y rheini a ddarperir gan drydydd parti. Ni chaiff cyflogwr adennill ei gostau chwaith os yw'n terfynu swydd, oni bai fod y swydd yn cael ei therfynu oherwydd camymddwyn difrifol. Mae hon yn rheol gyffredin mewn sawl sector a'i nod yw sicrhau tegwch rhwng cyflogwyr a gweithwyr amaethyddol.

37. Mae'r darpariaethau ynghylch yr hawl am wyliau a thâl gwyliau i weithwyr ag oriau afreolaidd a swydd am ran o flwyddyn wedi'u diweddaru i symleiddio'r broses o bennu symiau. Mae'r newidiadau hyn yn seiliedig ar ddiweddariadau i Reoliadau Amser Gwaith 1998. Yn hytrach na seilio tâl gwyliau ar gyfnod o 52 wythnos, cyfrifir y tâl nawr ar sail hawl wythnosol gweithiwr am wyliau.
38. Mae'r darpariaethau ar gyfer absenoldeb di-dâl yn cael eu diweddaru i gydnabod rhwymedigaethau statudol o dan Reoliadau Absenoldeb Gofalwyr 2024 a Rheoliadau Absenoldeb Mamolaeth a Rhiant etc 1999. Bydd y diweddariad hwn yn sicrhau nad yw gweithwyr amaethyddol dim ond yn cael absenoldeb di-dâl pan fydd wedi cael caniatâd y cyflogwr, hynny os oes rhwymedigaethau statudol yn berthnasol. Er enghraifft, o dan y Rheoliadau Absenoldeb Gofalwr, ni chaiff cyflogwyr wrthod cais am absenoldeb gofalu gan weithiwr amaethyddol cymwys. Fodd bynnag, caiff ohirio'r absenoldeb, cyn belled ag y cytunir ar ddyddiad arall sy'n digwydd o fewn mis i'r dyddiad y gofynnwyd amdano.
39. Mae'r diwygiadau technegol a drafftio canlynol wedi'u gwneud mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd yn ei adroddiad ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2024²:
- a) Mae diffiniad Erthygl 2 o "Fframwaith Prentisiaethau" yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu sut y caiff fframweithiau prentisiaethau eu cyflenwi a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Lantra.
 - b) Mae diffiniadau Erthygl 2 o "grant geni a mabwysiadu", "gwaith nos" ac "ar alwad" yn cael eu symud i Erthygl 15(2) newydd.
 - c) Mae diffiniad Erthygl 2 o "blentyn" yn cael ei ddiweddaru i ddileu "Bydd plentyn yn blentyn" a rhoi "Plentyn yw plentyn" yn ei le.
 - d) Mae diffiniad Erthygl 2 o "gyflogaeth" - "ac mae "a gyflogir" ("employed") a "cyflogwr" ("employer") i'w dehongli yn unol â hynny" i'w ddileu.
 - e) Diffiniad Erthygl 2 o "ddiwrnodau cymwys" - diffinnir y term a rhoddir ystyr gwahanol iddo yn erthygl 22(4). Felly, mae'r diffiniad yn Erthygl 2 yn cael ei ddiweddaru i gynnwys "ac eithrio yn erthygl 21" i egluro ble mae'r diffiniad yn cael ei gymhwyso yn y Gorchymyn.
 - f) Mae diffiniad Erthygl 2 o "isafswm cyflog cenedlaethol" yn cael ei ddileu gan nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Gorchymyn, ac eithrio yn nheitl Deddf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998.
 - g) Mae diffiniad Erthygl 2 o "amser gweithio" yn cael ei ddileu gan nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Gorchymyn, ac eithrio yn nheitl Rheoliadau Amser Gwaith 1998.
 - h) Ychwanegir diffiniad Erthygl 2 o "waith."
 - i) Yn Erthygl 20(1) ar gyfyngu ar hawl i dâl salwch amaethyddol - caiff "ni fydd" ei ddisodli gan "nid yw".

² <https://business.senedd.wales/documents/s500013097/LJC6-12-24%20-%20Paper%201%20-%20Draft%20report.pdf>

- j) Mae Erthygl 22(4) ar gyfrifo tâl salwch amaethyddol yn cael ei ddileu gan nad oes amgylchiadau lle byddai'n berthnasol.
- k) Yn Erthygl 25(1) ar adennill tâl salwch amaethyddol – caiff "gall" ei ddisodli gan "caiff"
- l) Mae Erthygl 40(2) ar Absenoldeb oherwydd Profedigaeth yn cael ei ailfformio. Yn hytrach na rhestru "plentyn" fel eitem ar wahân, mae'r fersiwn ddiwygiedig yn nodi'n uniongyrchol bod y personau yng Nghategori A yn blentyn, gan wneud y testun yn gliriach ac yn symlach.
- m) Yn Erthygl 41(5) ar bennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth – caiff "pan fo'r erthygl hon yn gymwys" ei ddileu.
- n) Yn Erthygl 42 (1) ar dâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol – caiff "bydd" ei ddisodli gan "mae"
- o) Yn Erthygl 42(2) ar dâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol – caiff "yn unol ag erthygl 43(1)" ei ddiwygio i "yn unol â pharagraff (1)".

Costau a manteision

40. Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar gostau a manteision y cynigion ar gyfraddau cyflog. Nid yw'n ystyried argymhellion eraill y Panel gan eu bod nhw'n naill ai'n dilyn y deddfau presennol, yn newidiadau drafftio bach neu nid oes digon o dystiolaeth i'w gwerthuso.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

41. Mae opsiwn y llinell sylfaen yn cadw cyfraddau cyflog isaf ac amodau a thelerau eraill gweithwyr amaethyddol, ar lefelau 2024, yn unol â darpariaethau Gorchymyn 2024. Yn ogystal, mae Deddf 2014 yn pennu na chaiff y cyfraddau cyflog fesul awr fod yn is nag isafswm cyflog cenedlaethol/cyflog byw cenedlaethol statudol y DU. Felly, yn y senario llinell sylfaen hon, byddai isafswm cyflog cenedlaethol/cyflog byw cenedlaethol statudol y DU yn drech nag unrhyw gyfraddau yn 2024 sy'n is na'r isafswm statudol.
42. Gan fod opsiwn y llinell sylfaen yn cynnwys cadw'r cyfraddau cyflog ar lefelau 2024 a'u haddasu dim ond i fodloni'r gofynion statudol lleiaf, nid oes cynnydd na gostyngiad yn y cyflogau a fyddai'n arwain at gostau neu fanteision ychwanegol. Nid yw'n golygu unrhyw faich ariannol neu fantais newydd y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i orfodi gan y gyfraith.
43. Ar ben hynny, trwy gadw'r amodau a'r telerau heb eu newid, mae opsiwn y llinell sylfaen yn sicrhau nad oes polisïau na newidiadau newydd a allai arwain at gostau neu fanteision gweinyddol ychwanegol. Mae'r fframwaith presennol yn

aros fel y mae, ac unig ddiben unrhyw newidiadau yw cydymffurfio â'r deddfau isafswm cyflog.

44. Nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn 'gwneud dim' hwn.

Opsiwn 2 – Rhoi argymhellion y Panel ar waith

Costau Llafur

45. Cafodd amcangyfrifon eu gwneud o gostau llafur ychwanegol cyfnod o 12 mis o'u cymharu â'r llinell sylfaen (tan pan y tybir y daw'r cyfraddau isaf newydd i rym), o safbwynt gweithwyr amser llawn, rhan-amser ac achlysurol ar draws y graddau amrywiol. Fe'u gwelwch yn Nhablau 3a i 3d. Mae'r amcangyfrifon yn tybio bod pob gweithiwr yn cael y gyfradd isaf.
46. Nid yw Arolwg Amaethyddol Mehefin Llywodraeth Cymru wedi casglu data am statws cyflogaeth (amser llawn a rhan-amser) gweithwyr amaethyddol ers 2015. Yn ogystal, ni chasglwyd data ar nifer y gweithwyr ym mhob gradd, oriau a weithiwyd yr wythnos ac wythnosau a weithiwyd y flwyddyn ers i Defra ddod â'u Harolwg Enillion ac Oriau Gweithwyr Garddwriaethol i ben yn 2011. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- a. Mae statws cyflogaeth gweithwyr yr un fath â chanran cyfansoddiad gweithwyr ar gyfartaledd rhwng 2009 a 2015³ (Gweler Tabl 8, Atodiad A).
 - b. Mae gwasgariad gweithwyr o ran graddau, oriau a weithiwyd yr wythnos ac wythnosau a weithiwyd y flwyddyn yn parhau'r un fath â thybiaethau 2012 y DU⁴ (Tablau 9, 11 a 12, Atodiad A).
47. Yn ogystal, mae cyfanswm yr oriau a weithiwyd yn seiliedig ar amcangyfrifon yr adroddiad Amaethyddiaeth yng Nghymru: Gwybodaeth am Farchnad Lafur Cymru (Brookdale Consulting, 2018) (Tabl 10, Atodiad A).
48. Er bod data'r DU wedi dyddio, dyma'r unig ffynhonnell ddata a oedd ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth o safbwynt graddau gweithwyr. Dylid nodi nad oedd y data'n benodol i Gymru ond yn ddarlun o'r strwythur llafur ar gyfer Cymru a Lloegr. Tybir bod strwythur Llafur Cymru yn debyg i'r amcangyfrif cyffredinol a wnaed gan Defra yn eu model costau yn 2012.

³ Llywodraeth Cymru. Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016 <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/180130-welsh-agricultural-statistics-2016-ency.pdf>

⁴ Defra. *Farm Labour and Wage Statistics*. 2012

49. Nid oes data ar wasgariad oedran gweithwyr Graddau A1-A3 a B1-B3, felly amcangyfrif yw ystod gwerth yr effeithiau ar y costau cyflog. Mae'r effaith isaf yn tybio nad oes unrhyw weithwyr B1-B3 yn weithwyr Gradd B3, ac mae'r dybiaeth uchaf yn cymryd eu bod i gyd yn weithwyr Gradd B3, gan arwain at gynnydd o 3% yn y cyflogau. Mae pedwar senario yn cael eu hystyried: bod 0%, 25%, 50%, a 100% o weithwyr B1-B3 yn weithwyr Gradd B3.

50. Mae'r ansicrwydd hwn yn ychwanegu at gymhlethdod rhagweld yn gywir yr effaith ar yr holl gostau cyflog. O ganlyniad, dylid dehongli'r amcangyfrifon yn ofalus, gan gydnabod wir wasgariad y gweithwyr ar draws graddau a bandiau oedran.

51. Y pwyntiau allweddol yw:

a. **Gradd B3 yn cyfrif am 0% o Raddau B1-B3**

Cyfrifir y bydd £7,263,264 o gostau ychwanegol. Y cynnydd sylweddol yng nghyflogau sylfaenol a goramser Graddau C, D ac E fydd y prif gyfranwyr

b. **Gradd B3 yn cyfrif am 25% o Raddau B1-B3**

Cyfrifir y bydd cyfanswm o £8,108,744 o gostau ychwanegol - mae costau Gradd B3 yn gyfrannwr mawr ynghyd â chostau Graddau C, D ac E.

c. **Gradd B3 yn cyfrif am 50% o Raddau B1-B3**

Cyfrifir y bydd cyfanswm o £8,954,224 o gostau ychwanegol, gyda chostau uwch Gradd B3 a chyfraniadau cyson gan Raddau C, D, ac E

d. **Gradd B3 yn cyfrif am 100% o Raddau B1-B3**

Cyfrifir y bydd cyfanswm £10,645,183 o gostau ychwanegol. Y senario hwn sydd â'r costau uchaf gan Radd B3, gyda chyfraniadau sylweddol gan Raddau C, D, ac E.

52. Mae'r costau llafur ychwanegol yn cynyddu gyda chyfran y gweithwyr sy'n Radd B3, yn amrywio o tua £7.26 miliwn i £10.64 miliwn y flwyddyn. Graddau C, D, ac E sy'n cyfrannu fwyaf yn gyson at y costau ychwanegol, gyda chynnydd arwyddocaol yn eu cyflogau sylfaenol a goramser.

53. Gallai'r opsiwn hwn greu gwahaniaeth cyflog rhwng Cymru a Lloegr, gan roi ffermwyr Cymru sy'n cystadlu â chynhyrchwyr o Loegr o dan anfantais, yn enwedig yn y diwydiant llaeth. Yn gyffredinol, byddai'n effeithio ar gyfraddau cyflog a symudedd llafur ac yn cynyddu costau.

54. Gallai'r cynnydd mewn costau arwain at lai o elw, at weithio llai o oriau neu brisiau uwch. Fodd bynnag, mae busnesau fferm Cymru, fel rhai Lloegr, yn gweithredu mewn marchnad genedlaethol neu ryngwladol gydag ond ychydig iawn o wahaniaethu rhwng cynnyrch. Nid ydynt fel arfer yn gallu rheoli prisiau eu

nwyddau, felly does ganddynt fawr o gyfle i drosglwyddo'r cynnydd yn y costau i ddefnyddwyr.

55. Er hynny, mae'n debygol y bydd y costau uwch yn cael rhywfaint o effaith negyddol ar allu'r sector i gystadlu o'i gymharu â busnesau yn Lloegr, er bod disgwyl i'r effeithiau hyn fod yn gymharol fach ar y cyfan.
56. Yn gyffredinol, mae amodau'r farchnad yn cael llawer mwy o effaith ar y sector amaethyddol na chyfraddau cyflog. Amodau'r farchnad sydd fwyaf tebygol o sbarduno newidiadau strwythurol mewn amaethyddiaeth, tra bo gwahaniaethau rhwng cyfraddau cyflog yn cael effaith gymharol fach.
57. Gallai isafswm cyflog uwch yng Nghymru wneud swyddi amaethyddol yn fwy deniadol, gan helpu i ddatrys problem prinder llafur a chadw gweithwyr. Gallai hyn arwain at weithlu mwy sefydlog a medrus a chynhyrchiant uwch. Bydd y cyfle sydd ar gael i bob fferm wella cynhyrchiant yn dibynnu i raddau helaeth ar faterion megis mabwysiadu technoleg, nodweddion y fferm a'r ffermwr ac unrhyw gyfle i sicrhau arbedion maint. At ei gilydd, nid oes digon o dystiolaeth i asesu'r canlyniadau tebygol o ran cynhyrchiant.
58. Heb newidiadau eraill, gellid disgwyl i gostau cyflog uwch roi pwysau ar elw (gan adlewyrchu'r manteision a ddaw i weithwyr amaethyddol). O ran proffidioldeb, mae gwahaniaethau mawr rhwng ffermydd yng Nghymru a bydd graddau'r effeithiau'n amrywio rhwng ffermydd (gweler yr adran ar yr effeithiau ar y sector).
59. Ceir rhagor o dystiolaeth o'r effeithiau ar brisiau, cynhyrchiant a busnesau fferm yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a wnaed o orchmynion blynyddoedd cynt. Er enghraifft, Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024⁵.

⁵ [Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol \(Cymru\) 2024](#)

Tabl 3a: Costau llafur ychwanegol y flwyddyn (Gradd B3 yn cyfrif am 0% o Raddau B1-B3)

Gradd	Amser llawn (£)		Rhan-amser (£)		Achlysurol (£)		Cyfanswm (£)
	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	
1 (A1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A3)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B3)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
3 (C)	£ 652,035.18	£ 152,915.31	£ 268,023.60	£ 402,035.39	£ -	£ -	£ 1,475,009.47
4 (C)	£ 2,173,450.59	£ 509,717.69	£ 421,179.94	£ 631,769.90	£ -	£ -	£ 3,736,118.12
5 (D)	£ 875,966.45	£ 205,431.67	£ 126,259.05	£ 189,388.57	£ -	£ -	£ 1,397,045.75
6 (E)	£ 437,085.11	£ 102,505.21	£ 46,200.05	£ 69,300.08	£ -	£ -	£ 655,090.45
Cyfanswm	£ 4,138,537.33	£ 970,569.88	£ 861,662.63	£1,292,493.95	£ -	£ -	£ 7,263,263.79

Tabl 3b: Costau llafur ychwanegol y flwyddyn (Gradd B3 yn cyfrif am 25% o Raddau B1-B3)

Gradd	Amser llawn (£)		Rhan-amser (£)		Achlysurol (£)		Cyfanswm (£)
	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	
1 (A1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A3)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B3)	£ 221,835.66	£ 52,024.90	£ 189,388.57	£ 284,082.86	£ 84,308.56	£ 13,839.33	£ 845,479.89
3 (C)	£ 652,035.18	£ 152,915.31	£ 268,023.60	£ 402,035.39	£ -	£ -	£ 1,475,009.47
4 (C)	£ 2,173,450.59	£ 509,717.69	£ 421,179.94	£ 631,769.90	£ -	£ -	£ 3,736,118.12
5 (D)	£ 875,966.45	£ 205,431.67	£ 126,259.05	£ 189,388.57	£ -	£ -	£ 1,397,045.75
6 (E)	£ 437,085.11	£ 102,505.21	£ 46,200.05	£ 69,300.08	£ -	£ -	£ 655,090.45
Cyfanswm	£ 4,360,372.99	£1,022,594.78	£1,051,051.21	£1,576,576.81	£ -	£ 13,839.33	£ 8,108,743.68

Tabl 3c: Costau llafur ychwanegol y flwyddyn (Gradd B3 yn cyfrif am 50% o Raddau B1-B3)

Gradd	Amser llawn (£)		Rhan-amser (£)		Achlysurol (£)		Cyfanswm (£)
	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	
1 (A1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A3)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B3)	£ 443,671.32	£ 104,049.81	£ 378,777.15	£ 568,165.72	£ 168,617.12	£ 27,678.66	£ 1,690,959.77
3 (C)	£ 652,035.18	£ 152,915.31	£ 268,023.60	£ 402,035.39	£ -	£ -	£ 1,475,009.47
4 (C)	£ 2,173,450.59	£ 509,717.69	£ 421,179.94	£ 631,769.90	£ -	£ -	£ 3,736,118.12
5 (D)	£ 875,966.45	£ 205,431.67	£ 126,259.05	£ 189,388.57	£ -	£ -	£ 1,397,045.75
6 (E)	£ 437,085.11	£ 102,505.21	£ 46,200.05	£ 69,300.08	£ -	£ -	£ 655,090.45
Cyfanswm	£ 4,582,208.65	£1,074,619.69	£1,240,439.78	£1,860,659.67	£ -	£ 27,678.66	£ 8,954,223.57

Tabl 3d: Costau llafur ychwanegol y flwyddyn (Gradd B3 yn cyfrif am 100% o Raddau B1-B3)

Gradd	Amser llawn (£)		Rhan-amser (£)		Achlysurol (£)		Cyfanswm (£)
	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	Sylfaenol	Goramser	
1 (A1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
1 (A3)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B1)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B2)	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -	£ -
2 (B3)	£ 887,342.64	£ 208,099.62	£ 757,554.30	£1,136,331.44	£ 337,234.23	£ 55,357.32	£ 3,381,919.54
3 (C)	£ 652,035.18	£ 152,915.31	£ 268,023.60	£ 402,035.39	£ -	£ -	£ 1,475,009.47
4 (C)	£ 2,173,450.59	£ 509,717.69	£ 421,179.94	£ 631,769.90	£ -	£ -	£ 3,736,118.12
5 (D)	£ 875,966.45	£ 205,431.67	£ 126,259.05	£ 189,388.57	£ -	£ -	£ 1,397,045.75
6 (E)	£ 437,085.11	£ 102,505.21	£ 46,200.05	£ 69,300.08	£ -	£ -	£ 655,090.45
Cyfanswm	£ 5,025,879.97	£1,178,669.50	£1,619,216.93	£2,428,825.40	£ -	£ 55,357.32	£10,645,183.34

Costau gorfodi

60. O ran costau gorfodi, rhagwelir y bydd y costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru yn weddol debyg i rai Gorchmynion blaenorol gan fod Llywodraeth Cymru yn gorfodi'r holl Orchmynion yn unol â Deddf 2014.
61. Amcangyfrifwyd mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol blaenorol bod gorfodi Gorchymyn 2012 yn unol â Deddf 2014 yn costio rhyw £3,000 y flwyddyn i'r llywodraeth. Roedd hyn yn seiliedig ar ddefnyddio mecanwaith gorfodi adweithiol, lle byddai Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i unrhyw honiadau o dandalu posibl gan gyhoeddi hysbysiadau gorfodi pan welwyd bod angen. Cafwyd saith achos ffurfiol lle bu angen ymchwilio ar lefelau amrywiol iddynt yn 2016-2024.
62. Mae'n anodd rhagweld nifer yr achosion sy'n codi, neu eu hunion natur. Mae costau gorfodi'n parhau i fod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y ceir un achos y flwyddyn i ymchwilio iddo a bod y lefel yn parhau fel blynyddoedd cynt.

Costau gweinyddol

63. Yn ogystal â chost cydymffurfio, bydd cost i fusnesau fferm am addasu i ofynion Gorchymyn 2025.
64. Bydd angen i ffermwyr sydd â gweithwyr perthnasol ymgyfarwyddo â darpariaethau Gorchymyn 2025 a deddfwriaeth cyflogaeth y DU (er enghraifft, mewn perthynas â'r isafswm cyflog cenedlaethol) er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu'n gywir.
65. Rhagdybir y byddai angen un awr⁶ ar bob cyflogwr i ymgyfarwyddo â Gorchymyn 2025 ac addasu cyfraddau cyflog a darpariaethau eraill. Ar sail data o Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Oriau ac Enillion (2024)⁷, cost gyfartalog fesul awr amser ffermwr yw £15.76 (cyfartaledd pob gweithiwr yn y diwydiant amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, heb gynnwys tâl goramser). Gwerth canolrif cost gweithiwr amaethyddol o'r un ffynhonnell oedd £13.50 yr awr. Yn ogystal, mae'r gyfradd fesul awr a ddefnyddir yma yn werth cyfartalog/canolrif pob gweithiwr fferm. Mewn gwirionedd, mae'r unigolion hynny'n debygol o fod yn berchnogion fferm neu reolwyr busnesau fferm. Mae cyfraddau cyflog y ffermwyr hyn yn debygol o fod ar ben uchaf gwasgariad y cyfraddau cyflog.

⁶ Mae hyn yn gyson â'r amcangyfrifon a ddefnyddir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol o ddiddymu Bwrdd Cyflogau Amaethwyr Cymru a Lloegr gan Defra ac a gynhaliwyd ar gyfer Deddf 2014.

⁷ Amcangyfrifon ar gyfer 2024 (dros dro) o oriau â thâl a weithiwyd, enillion fesul wythnos, awr a blwyddyn ar gyfer gweithwyr yn y DU yn ôl rhyw a gweithio'n llawn amser/rhan-amser gan Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol 2 ddigid 2007. Ar gael yn: [Earnings and hours worked, industry by two-digit SIC: ASHE Table 4 - Office for National Statistics](#)

66. Yn ôl ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar boblogaeth busnesau yn ôl rhanbarth ac yn ôl sector, roedd 14,785 o fusnesau yn y sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yng Nghymru yn 2023, gyda 3,030 o'r busnesau hynny'n gyflogwyr⁸. Felly amcangyfrifir bod gan fusnesau fferm yng Nghymru gostau gweinyddol o £47,000 (gan ddefnyddio cyfartaledd cost lafur o £15.76 yr awr) gan dybio bod angen awr ar bob busnes. O ddefnyddio'r gwerth canolrif ar gyfer cost llafur (£13.50 yr awr), amcangyfrifir mai cyfanswm y costau gweinyddol i fusnesau fferm fydd £41,000. Byddai'r amcangyfrif o'r gost yn uwch pe bai cyfraddau cyflog rheolwyr/perchnogion ffermydd yn cael eu defnyddio a bod costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau'n cael eu hadlewyrchu yn y cyfraddau.
67. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod llawer o fusnesau fferm yn talu cyfraddau'r farchnad, sy'n uwch na'r isafswm, felly ni fyddai'r cynnydd arfaethedig yng Ngorchymyn 2025 yn effeithio arnynt. Nid yw union nifer y busnesau o'r fath yn hysbys.
68. Yn ôl yr arolwg a gynhaliwyd gan ADAS yn gynnar yn 2016, cyfeiriodd tua 20% o'r busnesau amaethyddol a oedd yn cyflogi gweithwyr at y Gorchmynion Cyflogau. Dangosodd arolwg ar-lein bach ond mwy diweddar gyda chyfweliadau o gyfrifwyr a gynhaliwyd gan ADAS (2021) y gallai fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o'r ddeddfwriaeth yn y blynyddoedd diwethaf.

Yr effaith ar gyflogaeth

69. Mae'r effaith ar gyflogaeth yn cael ei fesur gan ddefnyddio 'elastigedd' cyflog, sy'n mesur pa mor sensitif yw'r galw am lafur i newidiadau mewn cyflogau. Mae Tablau 4a a 4b yn amcangyfrif y newid yn nifer y gweithwyr ar draws graddau ar sail dau elastigedd cyflog gwahanol: -0.19 (gwerth cyfartalog y llenyddiaeth) a -0.03. Dyma'r un gwerthoedd elastigedd cyflog ag a ddefnyddiwyd mewn RIAau cynharach. Mae astudiaethau empirig yn y gorffennol wedi dangos bod effaith yr isafswm cyflog ar swyddi'n fach iawn, gyda gwerth elastigedd cyflogau ar gyfartaledd hefyd yn fach iawn (am ragor o wybodaeth am yr adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch yr effaith ar swyddi gweler RIA Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024⁹.
70. Nid oes data ar gael o ran pa gyfran o weithwyr fferm Cymru sydd ym mhob gradd. Fodd bynnag, cafwyd amcangyfrif bras o gyfansoddiad graddau'r gweithlu drwy gyfuno data 2012 ar gyfer y DU â data 2024 ar gyfer cyfanswm gweithlu amaethyddol Cymru (gweler yn Nhablau 8 a 9 yn Atodiad A). Mae'r amcangyfrifon

Tabl 21 Nifer y busnesau yn y sector preifat a'u cyflogaeth a'u trosiant cysylltiedig, yn ôl nifer y gweithwyr a'r adran diwydiant yng Nghymru, yn dechrau yn 2024 o fewn ystadegau ar AMCANGYFRIFON POBLOGAETH BUSNESAU AR GYFER Y DU A RHANBARTH 2024. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66f554dcc71e42688b65ecd3/BPE_2024_detailed_tables.xlsx

⁹ [Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol \(Cymru\) 2024](#)

hyn yn dangos y gallai fod 2,800 o weithwyr o fewn Graddau A1-A3; 6,800 o weithwyr o fewn Graddau B1-B3 a 2,500 o weithwyr o fewn Graddau (C-E).

71. Mae tabl 4a yn dangos bod elastigedd cyflogau uwch (-0.19) yn arwain at fwy o ostyngiad yn nifer y gweithwyr, gyda gostyngiad o 47 - 87 o weithwyr.

72. Mae tabl 4b yn dangos bod elastigedd cyflogau is (-0.03) yn arwain at ostyngiad llai yn nifer y gweithwyr, gyda gostyngiad o rhwng 7 a 14 o weithwyr.

73. Mae'r newid yn y galw am lafur yn fwy amlwg pan fydd elastigedd cyflog yn uwch, sy'n awgrymu bod busnesau fferm yn fwy sensitif i newidiadau cyflog yn y senario hwn. Mae'r gostyngiadau mwyaf arwyddocaol yn digwydd yng Ngraddau B1-B3 ac C.

Tabl 4a: Newid yn y galw am lafur gan ragdybio elastigedd cyflog =-0.19

Gradd	Nifer y gweithwyr	Elastigedd cyflog	Newid mewn cyflog %	Newidiadau absoliwt yn nifer y gweithwyr (d) (d=a*b*c)
1 (A1-A3)	0 – 2800	-0.19	0.000	0
2 (B1-B3)	0 – 6800	-0.19	0.031	-40 – 0
3 (C)	500	-0.19	0.099	-9
4 (C)	1300	-0.19	0.099	-24
5 (D)	500	-0.19	0.099	-9
6 (E)	200	-0.19	0.099	-4
Cyfanswm				-47 – -87

Tabl 4b: Newid yn y galw am lafur gan ragdybio elastigedd cyflog =-0.03

Gradd	Nifer y gweithwyr	Elastigedd cyflog	Newid mewn cyflog %	Newidiadau absoliwt yn nifer y gweithwyr (d) (d=a*b*c)
1 (A1-A3)	0 – 2800	-0.03	0.00	0
2 (B1-B3)	0- 6600	-0.03	0.03	-6 – 0
3 (C)	500	-0.03	0.10	-1
4 (C)	1400	-0.03	0.10	-4
5 (D)	500	-0.03	0.10	-1
6 (E)	200	-0.03	0.10	-1
Cyfanswm				-7 – -14

Yr effaith ar Enillion

74. Ar sail y rhagdybiaethau yn Nhablau 3a i 3d, rydym yn amcangyfrif y bydd y newidiadau a gynigir i'r cyfraddau cyflog isaf yn arwain at gynydd o rhwng £7.26

miliwn a £10.64 miliwn yn 2025 yng nghyflogau cyn treth gweithwyr amaethyddol, gan ragdybio bod y cyfraddau isafswm yn cael eu talu i bob un. Mae hyn yn cynrychioli trosglwyddiad cyfatebol gan fusnesau amaethyddol i weithwyr fferm. O ystyried bod y dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod llai nag 20% yn cyfeirio at y Gorchmynion Cyflogau wrth bennu cyflogau, mae'r effaith ar gyflogau/costau yn debygol o fod lawer is.

75. Gellir disgwyl y bydd y swm hwn yn cael effeithiau anuniongyrchol pellach o ran pŵer gwario lleol, gyda gael mwy o effaith mewn ardaloedd gwledig sydd â chyfran uwch o weithwyr amaethyddol, er bod hyn yn dibynnu ar y patrymau gwariant a fyddai wedi digwydd gan fusnesau fferm hefyd (o ystyried y trosglwyddiadau).

Yr effaith ar dlodi, gan gynnwys tlodi mewn gwaith

76. Mae cynyddu'r isafswm cyflog yn debygol o roi hwb i incwm gweithwyr unigol. Fodd bynnag, gallai hyn gael effeithiau cymysg ar dlodi mewn gwaith. Er y gallai cyflogau uwch helpu, gallent arwain at leihau oriau gwaith neu golli swyddi gan ddadwneud unrhyw effeithiau da. Yn ogystal, gallai'r system dreth a budd-daliadau leihau'r fantais, gan y gallai gweithwyr orfod talu mwy o dreth neu dderbyn llai o fudd-dâl. Mae'r effaith gyffredinol yn dibynnu hefyd ar benderfyniadau a wneir gan fusnesau a gweithwyr.
77. Gallai codi'r cyfraddau cyflog isaf helpu i leihau tlodi mewn gwaith drwy gynyddu cyflogau'r gweithwyr sy'n derbyn y cyflogau isaf. Er mai ychydig o dystiolaeth sydd ynghylch beth yw effaith sawl isafswm cyflog, byddai'n effeithio ar fwy o weithwyr nag un isafswm. Yn 2024, roedd 12,200 o weithwyr amaethyddol yn cael eu cyflogi yng Nghymru, gyda 26% yn amser llawn a 74% yn rhan-amser, tymhorol neu achlysurol. Mae gweithwyr rhan-amser, tymhorol ac achlysurol, sy'n cyfrif am tua 9,030 o'r gweithwyr hyn, â siarad yn gyffredinol yn fwy tebygol o brofi tlodi¹⁰.
78. Mae cyfraddau fesul awr gweithwyr Gradd C-E yn cynyddu 10%. Gallai hyn gael effaith bositif ar oddeutu 1,745 o weithwyr amser llawn a 778 o weithwyr rhan-amser. Yn ogystal, efallai yr effeithir ar gyfran o weithwyr fferm Gradd B oherwydd y codiad cyflog o 3% a gynigir o'i gymharu â'r llinell sylfaen (gweler Tabl 10 yn Atodiad A).
79. Fodd bynnag, bydd yr effaith ar dlodi mewn gwaith ac ar dlodi gwledig yn gyffredinol yn fach oherwydd y nifer fach o bobl a'r effaith fwy ansicr ar dlodi cartrefi.

¹⁰ Mae'r canrannau ar gyfer gweithwyr amser llawn, rhan-amser ac achlysurol yn seiliedig ar gyfartaledd data rhwng 2009 a 2015.

Yr effaith ar hyfforddiant a sgiliau

80. Rhagwelir y bydd Gorchymyn 2025 yn cyfrannu at ddatblygu a chadw sgiliau drwy ddarparu strwythur gyrfa clir yn y sector amaethyddol.
81. Dangosodd astudiaeth yn 2003¹¹ nad oedd unrhyw dystiolaeth bod cyflwyno'r isafswm cyflog cenedlaethol wedi lleihau hyfforddiant. Yn hytrach, awgrymodd y gallai fod wedi cynyddu hyfforddiant. Canfu Riley and Bondibene (2017)¹² fod isafswm cyflog uwch yn golygu bod llai o weithwyr yn gadael swyddi, gan arwain at gynhyrchiant uwch a chynyddu'r cymhelliant i gwmnïau ddarparu hyfforddiant. Canfu Bellmann, L. (2017)¹³ ostyngiad bach yn yr hyfforddiant a ariennir gan gyflogwyr oherwydd yr isafswm cyflogau, gan effeithio'n bennaf ar weithwyr led-grefftus a chrefftus iawn, heb unrhyw effaith arwyddocaol ar weithwyr sgiliau isel.
82. Nododd arolwg ADAS yn 2016 bod 49% o ddefnyddwyr a 45% o'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr yn teimlo bod y Gorchymynion Cyflogau'n eithaf defnyddiol o ran datblygu sgiliau er y gallai'r gwir effaith ar hyfforddiant a sgiliau fod yn fach oherwydd diffyg defnydd.
83. Yn gyffredinol, prin yw'r dystiolaeth y bydd cynyddu lefelau'r isafswm cyflog amaethyddol yng Nghymru yn cymell pobl i ennill sgiliau, yn rhannol oherwydd y diffyg defnydd o'r Gorchymyn Cyflogau.
84. Dylai'r cynnydd yn y cyfraddau cyflog isaf yng Ngorchymyn 2025 ar gyfer gweithwyr mwy crefftus helpu i gadw swyddi a sgiliau yn y diwydiant amaethyddol, ond gallai'r cynnydd yn y costau llafur effeithio'n negyddol ar hyfforddiant a ariennir gan gyflogwyr.

Yr effeithiau ar sectorau eraill

85. Nid oes dystiolaeth o effaith wahaniaethol sylweddol ar Lywodraeth Leol na'r sector gwirfoddol.

Yr effaith ar fusnesau bach

86. Bydd y cynnydd mewn cyflog a newid telerau'n effeithio ar fusnesau fferm, gan gynnwys rhai bach, sy'n cyflogi gweithwyr fferm. Ers 2016, mae'r cyfraddau cyflog

¹¹ Arulampalam, W., et.al. (2003). Work-related Training and the New National Minimum Wage in Britain. Y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (ISER), Papurau Gwaith Rhif 2003-5.

¹² Riley, R. and Bondibene (2017). Impacts of minimum wages: review of the international evidence.

¹³ Bellmann, L. (2017). Training and minimum wages: first evidence from the introduction of the minimum wage in Germany. IZA Journal of Labor Economics, cyfrol 6, Rhif erthygl: 8 (2017).

amaethyddol isaf wedi cynyddu bob blwyddyn. Er bod y cyfraddau hyn yn pennu isafswm statudol, gall cyflogwyr ddewis talu cyflogau uwch ar sail sgiliau a chyfrifoldebau gweithwyr. Yn ogystal, efallai y bydd rhai busnesau am gyflogi gweithwyr neu contractwyr hunangyflogedig yn lle hynny.

87. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (gweler tabl 5), roedd 14,475 o fusnesau amaethyddol, coedwigaeth a physgota yng Nghymru, gyda 2,955 (21.1%) ohonynt yn fusnesau cyflogi ar ddechrau 2024. Y ffigurau yn Lloegr oedd 95,615 a 39.9%. Mae'r data'n awgrymu mai busnesau bach sy'n dominyddu amaethyddiaeth yng Nghymru (17.0% o fusnesau'n cyflogi llai na phum gweithiwr a 4.1% yn fusnesau gyda phum gweithiwr neu fwy) ac nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau'n cyflogi gweithwyr (76.2%) o gwbl. I fusnesau llai sydd â gweithwyr cyflog, gallai'r cynnydd yng nghost gweithwyr o ganlyniad i gynyddu'r isafswm cyflog amaethyddol gael effaith negyddol ar broffidioldeb y busnes.

88. Awgrymodd yr astudiaeth mai cost gyfartalog gweithwyr cyflog oedd tua 18% o gyfanswm y mewnbynnau, ac ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng ffermydd o wahanol faint. Mae hyn yn awgrymu bod y strwythur costau (cost gweithwyr fel canran o gyfanswm costau) yn debyg ar draws ffermydd o bob maint ac nad oes unrhyw arwydd y byddai'r cynnydd yng nghost gweithwyr yn cael effaith anghymesur ar fusnesau llai.

Tabl 5: Nifer y busnesau amaethyddol yn ôl band maint yng Nghymru a Lloegr (2024)

Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota	Lloegr		Cymru	
	Nifer y Busnesau	%	Nifer y Busnesau	%
Pob busnes	95,505	100	14,785	100
Pob cyflogwr	37,890	40	3,030	20.5
Heb unrhyw weithwyr (heb eu cofrestru)[nodyn 2]	4,370	5	1,115	7.5
Heb unrhyw weithwyr (wedi'u cofrestru) [Nodyn 2][Nodyn 4]	53,245	56	10,640	72
1	12,220	13	1,080	7.3
2 i 4	16,835	18	1,305	8.8
5 i 9	5,565	6	445	3
10 i 19	1,880	2	160	1.1
20 i 49	895	1	25	0.2
50 i 99	280	0	10	0.1
100 i 199	105	0	5	0
200 i 249	30	0	0	0
250 i 499	40	0	0	0
500 neu fwy	40	0	0	0

Ffynhonnell: ONS (2024) Business population estimates for the UK and regions 2024, Table 20 and Table 21.
https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66f554dcc71e42688b65ecd3/BPE_2024_detailed_tables.xlsx Note: * Gall busnesau heb weithwyr naill ai fod 'wedi'u cofrestru' ar gyfer TAW neu PAYE neu 'heb eu cofrestru'.

Yr effaith ar y Sector

89. Gall yr effaith ar wahanol fathau o ffermydd amrywio yn ôl strwythur cost y busnesau fferm. Yn ôl data diweddaraf Arolwg Busnesau Fferm Cymru (2023/2024), roedd costau llafur achlysurol a rheolaidd yn cyfrif am 3-6% o gyfanswm eu costau amaethyddol (gweler Tabl 6).

Tabl 6: Cost gweithwyr fel canran o gyfanswm y mewnbwn i fusnesau fferm yng Nghymru dros bum mlynedd yn ôl sector

Math o fferm	Cost gweithwyr (000 £), gweithwyr achlysurol a rheolaidd					Cost amaethyddol (000 £)					Cyfran o'r costau gweithwyr (%)				
	19-20	20-21	21-22	22-23	23-24	19-20	20-21	21-22	22-23	23-24	19-20	20-21	21-22	22-23	23-24
Ffermydd Gwartheg a Defaid ALFf	3.4	3.2	3.6	3.1	3.1	85.4	84.6	94.7	96.8	96.5	4%	4%	4%	3%	3%
Ffermydd Gwartheg a Defaid Iseldir	3.4	3	3.3	3.4	2.2	85.5	77	91	103.9	95.4	4%	4%	4%	3%	2%
Godro	24.9	28.7	27.6	28.1	33.4	372.8	396.8	411	527	576	7%	7%	7%	5%	6%
Pob fferm	6.9	7.5	7.8	7.6	8.2	132.8	135.3	147.6	169.9	177.1	5%	6%	5%	5%	5%


90. Prin yw'r dystiolaeth ynghylch cynhyrchiant gweithwyr ar ffermydd yng Nghymru. Mae'r graddau y gall pob fferm wella cynhyrchiant yn dibynnu ar ffactorau fel y defnydd o dechnoleg, nodweddion ffermydd a ffermwyr ac arbedion maint. Yn gyffredinol, nid oes digon o dystiolaeth i ragweld effeithiau tebygol o ran gwella cynhyrchiant.

91. Mae proffidioldeb ffermydd yn amrywio'n fawr yng Nghymru. Mae data o 2023-2024 yn dangos bod gan ffermydd godro incwm ar gyfartaledd o ryw £67,500, tra bo ffermydd gwartheg a defaid mewn Ardaloedd Llai Ffatriol (LFA) yn gwneud tua £22,200, a bod ffermydd gwartheg a defaid yr iseldir yn gwneud tua £23,000.

92. Mae'r Arolwg Busnesau Fferm yn dangos dros amser bod incwm ffermydd wedi aros yn isel ar y cyfan, yn enwedig ffermydd gwartheg a defaid, a cheir gwahaniaethau rhwng blynyddoedd a mathau o ffermydd. Mae incwm ffermydd godro wedi pendilio'n fawr dros y deng mlynedd diwethaf, gan godi'n sydyn yn 22/23 cyn gostwng yn ddramatig flwyddyn yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mae incwm ffermydd godro'n parhau'n uwch na phob math arall o fferm (Ffig 1.)

Ffigur 1: Incwm cyfartalog busnesau fferm yng Nghymru, 2013-14 i 2023-24

Average farm business income per farm (£)




Ffynhonnell: [Incymau fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

93. Mae'n bwysig nodi wrth ystyried data am broffidioldeb ffermydd bod llawer o ffermydd yn dibynnu'n drwm ar gymorth ariannol gan y llywodraeth. Gall y ddibyniaeth hon ar gymorthdaliadau cyhoeddus effeithio'n sylweddol ar eu proffidioldeb, felly efallai na fydd y data'n adlewyrchu iechyd ariannol y fferm yn llawn hebddynt. Mae'r Arolwg Busnesau Fferm yn dangos y byddai dros 50% o ffermydd wedi gwneud colled heb gymorthdaliadau ers 2013-14, a chynyddodd hyn i dros 60% yn 2018-19 (Ffig 2). Mae lefel y ddibyniaeth yn amrywio yn ôl y math o fferm, gyda thua 70% o ffermydd gwartheg a defaid yr ALFf, 50% o ffermydd gwartheg a defaid yr iseldir, a 25% o ffermydd godro'n dibynnu ar gymhorthdal yn 2018-19 i osgoi gwneud colled.

94. Mae'r ddibyniaeth ar gymorthdaliadau yn gwneud ffermydd yn sensitif i newidiadau polisi ac yn amodau'r farchnad, yn enwedig ers Brexit. Byddai costau llafur uwch yn rhoi pwysau ar broffidioldeb ffermydd ymhellach, yn enwedig i'r rhai sydd eisoes yn gwneud colledion, gyda chymorthdaliadau neu hebddynt.

Ffigur 2: Amrywiad mewn cymorthdaliadau* fel cyfran o incwm busnesau fferm yng Nghymru




Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Ffermio a Ddyfynnwyd yn y Datganiad Ystadegol ar Incwm Ffermydd yng Nghymru 2018/19.

Nodyn *: mae cymorthdaliadau'n cynnwys taliadau amaeth-amgylcheddol a thaliadau fferm sengl; L1 - Gyda chymhorthdal, fe wnaeth y fferm golled; L2 - Heb gymhorthdal, byddai'r fferm wedi gwneud colled.

95. Mae data'r FBS o 2017-18 hyd at 2022-23 yn awgrymu (Ffigur 4), hyd yn oed gyda chymhorthdal, fod gan tua 10-20% o fusnesau fferm yng Nghymru incwm negyddol.

Ffigur 3: Canran y ffermydd ym mhob grŵp incwm

% of farms in each income group



Ffynhonnell: [Incymau fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 \[HTML\]](#) | [LLYW.CYMRU](#)

96. Yn gyffredinol, bydd cynyddu costau amaethyddol yn effeithio ar incwm fferm a phroffidioldeb, ond mae'n anodd rhagweld faint yn gywir. Gall Gorchymyn 2025 ychwanegu at bwysau'r costau hyn, yn enwedig o gynnwys effeithiau pandemig COVID-19, Brexit, diddymu'r Taliadau Uniongyrchol a'r cynnydd mewn costau byw a chwyddiant.

Asesu'r Gystadleuaeth

97. Gweler Atodiad B.

Casgliad

98. Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 yn cyflwyno nifer o newidiadau pwysig gyda'r nod o wella cyflogau ac amodau gwaith gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cynyddu'r gyfradd tâl isaf yr awr, newid lwfansau a diweddarau rheolau goramser a hawliau i wyliau. Mae'r Gorchymyn yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen am gyflogau teg a'r realiti economaidd sy'n wynebu busnesau fferm.

99. Mae'r asesiad o'i effaith yn amcangyfrif y bydd costau llafur yn sgil dewis Opsiwn 2 yn cynyddu rhwng £7.26 miliwn a £10.64 miliwn yn 2025. Er y bydd gweithwyr

amaethyddol yn elwa ar gynnydd yn eu hincwm yn sgil y cyfraddau cyflog uwch hyn, byddant hefyd yn ychwanegu at gostau busnesau fferm. Gallai hyn arwain at ostyngiad o tua 7 i 87 o swyddi amaethyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd yr effaith gyffredinol ar gyflogaeth yn fach iawn, er y gall ostwng yr oriau a weithir (ond ni ellir mesur hyn).

100. Gallai costau uwch arwain at golli elw, ond nid yw'r effaith ar gynhyrchiant yn glir. Mae'n annhebygol y bydd modd codi prisiau allbynnau er mwyn cynnal lefelau elw, gan nad oes gan fusnesau fferm ar y cyfan fawr o bŵer i ddylanwadu ar brisiau. O ran newid allbynnau amaethyddol, mae amodau ehangach y farchnad amaethyddol yn cael mwy o effaith uniongyrchol.
101. Bydd costau gweinyddol i fusnesau fferm wrth addasu i Orchymyn 2025 yn golygu rhyw £41,000 - £47,000. Disgwylir i'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru fod yn debyg o dan y ddau opsiwn, gan ei bod eisoes yn gorfodi'r drefn isafswm cyflog amaethyddol o dan Ddeddf 2014, a rhagdybir na fydd baich gwaith y flwyddyn yn newid.
102. Mae'r ddibyniaeth ar gymorthdaliadau cyhoeddus yn gwneud y sector amaethyddol yn sensitif i newidiadau polisi ac yn amodau'r farchnad, yn enwedig ers Brexit. Gallai costau llafur uwch ei wneud yn fwy bregus, ond nod y Gorchymyn yw cynnal gweithlu crefftus sydd wedi'i hyfforddi'n dda, sy'n hanfodol i wneud y sector yn gynaliadwy yn yr hirdymor.
103. I gloi, mae Opsiwn 2 yn cynnig trefn sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gyfer pennu cyflogau isaf a newid strwythurau cyflog ac agweddau eraill ar gyflogaeth yn y sector amaethyddol. Gyda chyfraddau cyflog yn cynyddu, bydd Gorchymyn 2025 yn rhoi mantais i'r gweithlu cyflogedig drwy gynyddu'u enillion ac annog y diwydiant i wella'i sgiliau.
104. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrif o gostau a manteision Opsiwn 2 yn rhagdybio mai'r isafswm fydd yn cael ei dalu i'r holl weithwyr amaethyddol cyflogedig. Mewn gwirionedd, mae llawer yn debygol o gael cyfraddau'r farchnad wedi'u talu iddynt, fydd yn uwch na'r isafswm, felly gall gwir effaith newidiadau 2025 fod yn llai na'r hyn a amcangyfrifir.

ATODIAD A: DATA I ATEGU CYFRIFO COSTAU A MANTEISION AC ANSAWDD Y DATA

105. Nid oes data wedi'u dadgyfuno fesul gradd gweithwyr ar gael ar gyfer Cymru. Felly, mae'r amcangyfrifon o'r costau'n seiliedig ar ragdybiaethau 2012 y DU¹⁴, wedi'u cyfuno â chyfansoddiad canrannol cyfartalog gwahanol fathau o weithwyr (amser llawn, rhan-amser, a thymhorol) rhwng 2009 a 2015¹⁵ a data gweithlu amaethyddol 2024 Cymru¹⁶.
106. Mae'r amcangyfrifon yn rhagdybio bod pob gweithiwr ar y gyfradd isaf. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai cyfradd y farchnad sy'n cael ei thalu i'r rhan fwyaf o weithwyr, felly bydd y gwir effaith ar gyflogau a chostau yn debygol o fod lawer is.
107. Er bod yr amcangyfrifon yn dibynnu'n rhannol ar ddata hanesyddol o fodel costau Defra 2012, y rhain hefyd yw'r amcangyfrif gorau sydd ar gael ar gyfer cyfrifo costau llafur ychwanegol oherwydd codiadau yn y cyfraddau cyflog. Dylid nodi nad oedd y data hwn yn benodol i Gymru ond ei fod yn cynrychioli'r strwythur llafur yng Nghymru a Lloegr. Rhagdybir felly bod y strwythur llafur yng Nghymru yn debyg i'r amcangyfrif cyffredinol a wnaed gan Defra, gan ei wneud yn feincnod perthnasol ar gyfer y gweithlu amaethyddol yn ôl gradd. Mae'r defnydd o ddata arolwg gweithwyr Defra yn 2012 wedi effeithio ar ansawdd data'r amcangyfrifon.
108. Bernir bod cael data mwy cyfoes a pherthnasol a allai fod yn ansicr ei ansawdd, yn anghymesur o gofio cwrpas ac effaith y maes polisi, yn enwedig o ystyried y pwysau ariannol mawr sydd ar Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

¹⁴ Ffynhonnell: Defra Farm Labour and Wage Statistics, 2012. [ar-lein] <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130123162956/http://www.defra.gov.uk/statistics/ffeiliau/defra-stats-foodfarm-farmmanage-earnings-labour2012-120627.pdf>

¹⁵ Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016 [ar-lein] <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/180130-welsh-agricultural-statistics-2016-chapter-3-ency.ods>

¹⁶ Ffynhonnell: [Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol: Mehefin 2024 \[HTML\]](#) | LLYW.CYMRU

Data Cyflogaeth

Tabl 7: Pobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol (a) 2009-2016

		2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	Cyfartaledd 2009-15	% cyfansoddiad ar gyfartaledd 2009-15
Cyfanswm ffermwyr, partneriaid, cyfarwyddwyr a'u priod:											
	Amser llawn	19,492	16,413	19,945	19,869	17,873	19,507	19,307	18,564		
	Rhan-amser	24,317	27,586	25,001	25,179	22,078	23,142	22,312	21,339		
	Cyfanswm	43,809	43,999	44,946	45,048	39,951	42,649	41,619	39,903		
Gweithwyr fferm:											
	Amser llawn rheolaidd	3,720	3,697	3,306	3,146	3,278	4,406	4,638	..	3,742	26%
	Rhan-amser rheolaidd	4,623	4,951	3,100	3,422	3,337	4,682	4,492	..	4,087	29%
	Gweithwyr tymhorol neu achlysurol	4,489	5,181	7,063	6,758	6,398	7,884	7,570	..	6,478	45%
	Cyfanswm y gweithwyr fferm	12,832	13,829	13,469	13,326	13,013	16,972	16,700	13,621	14,306	100%
Cyfanswm y gweithlu		56,641	57,828	58,415	58,374	52,964	59,621	58,319	53,524		

Ffynhonnell: Ystadegau Amaethyddol Cymru, 2016

Ar gael yma: [Ystadegau Amaethyddol Cymru 2016 / Ystadegau amaethyddol Cymru 2016](#)

Tabl 8: Pobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol, Cymru (2024)

Math o lafur		Nifer y bobl
Cyfanswm ffermwyr, partneriaid, cyfarwyddwyr a'u priod: (a)		
	Amser llawn	16,600
	Rhan-amser (b)	20,700
	Cyfanswm	37,300
Gweithwyr fferm:		
	Amser llawn rheolaidd (c)	3,172*
	Rhan-amser rheolaidd (b) (c)	3,538*
	Gweithwyr tymhorol neu achlysurol	5,490*
	Cyfanswm y gweithwyr fferm	12,200
Cyfanswm y gweithlu		49,500

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Arolwg Mehefin 2024 o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth: Canlyniadau Cymru. Ar gael yma: [Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol: Mehefin 2024 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Pwysig:

(a) Ffigurau prif ddaliadau a mân ddaliadau yw'r rhain.

(b) Rhan-amser yw llai na 39 awr yr wythnos.

(c) Yn cynnwys rheolwyr cyflogedig.

* Cyfrifwyd yn seiliedig ar gyfansoddiad canrannol cyfartalog y gwahanol fathau o weithwyr rhwng 2009 a 2015.

Enillion

Tabl 9: Proffil gweithwyr ym mhob gradd (% ar gyfartaledd), y DU (2007-2010)

Gradd	Amser llawn	Rhan-amser (a)	Achlysurol
Gradd 1	6%	14%	39%
Gradd 2	39%	63%	61%
Gradd 3	9%	7%	
Gradd 4	30%	11%	
Gradd 5	11%	3%	
Gradd 6	5%	1%	

Ffynhonnell: Defra Farm Labour and Wage Statistics, 2012. [ar-lein]

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130123162956/http://www.defra.gov.uk/statistics/files/defra-stats-foodfarm-farmmanage-earnings-labour2012-120627.pdf> , Tabl 12 ar t.13.

Pwysig: (a) Nid yw'r cyfansymiau'n adio i fyny i 100% oherwydd talgrynnu.

109. Mae Tabl 10 yn cyfuno data o Dablau 8 a 9 i roi amcangyfrifon bras o nifer y staff amser llawn, rhan-amser ac achlysurol a geir ym mhob gradd yng Nghymru gan ddefnyddio data cyflogaeth 2024.

Tabl 10: Nifer y gweithwyr ym mhob gradd, amcangyfrifon Cymru 2024

Gradd*	Amser llawn	Rhan-amser	Achlysurol
1 (A1-A3)	190	495	2,141
2 (B1-B3)	1,237	2,229	3,349
3 (C)	285	248	
4 (C)	952	389	
5 (D)	349	106	
6 (E)	159	35	
Cyfanswm	3,172	3,503	5,490

Pwysig: Cyfeiriwyd at yr hen raddau cyn 2022 (Gradd 2, Gradd 4 neu Radd 5) gan mai'r hen raddau a ddefnyddiwyd yn nata arolygon gweithlu Defra 2012 i weithio'r cyfrifiadau.

Tabl 11: Orlau a weithir yn ôl y math o weithiwr yr wythnos, y DU, cyfartaledd 2003 i 2010

Math o weithiwr	Cyfanswm yr oriau a weithir	Orlau sylfaenol	Orlau goramser
Amser llawn (a)	42.5	36.3	6.2
Rhan-amser (b)	17.2	17.2	0
Achlysurol (c)	29.4	26.5	2.9

Ffynhonnell: (a) a (b) Cyfanswm nifer yr oriau a weithir yn seiliedig ar amcangyfrifon o Adroddiad Brookdale Consulting i Lywodraeth Cymru (2018). Agriculture in Wales: Welsh Labour Market Information. Amcangyfrifir oriau sylfaenol ac oriau goramser yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr oriau ac fe'u rhennir rhwng oriau sylfaenol ac oriau goramser o (2012) Defra Farm Labour and Wage Statistics..

(c) Defra Farm Labour and Wage Statistics, 2012. [ar-

lein]<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130123162956/http://www.defra.gov.uk/statistics/files/defra-stats-foodfarm-farmmanage-earnings-labour2012-120627.pdf> , Tabl 10 ar t.12.

Pwysig: (b) Rhagdybir nad yw gweithwyr rhan-amser yn gweithio goramser.

Tabl 12: Nifer yr wythnosau a weithir bob blwyddyn yn ôl math gwahanol o gyflogaeth

Math o weithiwr	Nifer yr wythnosau a weithir ar oriau sylfaenol	Nifer yr wythnosau a weithir ar oriau goramser
Amser llawn	52	47.6
Rhan-amser (a)	52	49.2
Achlysurol	10	10

Ffynhonnell: Defra Farm Labour and Wage Statistics, 2012. [ar-lein]

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130123162956/http://www.defra.gov.uk/statistics/files/defra-stats-foodfarm-farmmanage-earnings-labour2012-120627.pdf> , Tabl 39 ar t.36.

Tabl 13: Cyfraddau cyflog yr awr, llinell sylfaen a chodiadau i gyflogau sylfaenol a goramser 2025

Gradd neu gategori o weithiwr	Cyflog sylfaenol 2025	Llinell sylfaen cyflog sylfaenol	Codiad i gyflog sylfaenol	Codiad i gyflog goramser*
Gwaith Gradd 1 (25+ oed) (Gradd A3, 21+ oed)	£12.21	£12.21	£ -	£ -
Gweithiwr Gradd 2 (Gradd B3, 21+)	£12.59	£12.21	£0.38	£0.57
Gweithiwr Gradd 3 (Gradd C)	£13.48	£12.27	£1.21	£1.82
Gweithiwr Gradd 4 (Gradd C)	£13.48	£12.27	£1.21	£1.82
Gweithiwr Gradd 5 (Gradd D)	£14.79	£13.46	£1.33	£2.00
Gweithiwr Gradd 6 (Gradd E)	£16.23	£14.77	£1.46	£2.19

Pwysig: * Mae lefelau tâl goramser 1.5 gwaith yn fwy na'r gyfradd sylfaenol.

ATODIAD B: ASESU'R GYSTADLEUAETH

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol neu Na
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Na
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Na
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan y tri busnes mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad?	Na
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill?	Na
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	Na
C6: A fydd y rheoliad yn golygu costau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr ac a ydynt yn gostau nad oes gofyn i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C7: A fydd y rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, ac a ydynt yn gostau nad oes gofyn i gyflenwyr presennol eu talu?	Na
C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Na
C9: A fydd y rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na